# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 06.05.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes, Eric M. Jones, Angela Russell, R.H. Wyn Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Harry Thomas (Prif Weithredwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

2. **ETHOL IS GADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

3. **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Siân Gwenllïan, Brian Jones, Liz Saville Roberts, Dyfrig Siencyn

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Dim i'w nodi

5. **MATERION BRYS**
   Dim i'w nodi

6. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 7. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH ADDYSG

Adroddodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol y derbyniwyd dau gais am y swydd.

Mynegwyd siom gan Aelodau ynglŷn â'r nifer isel o geisiadau a dderbyniwyd. Mewn ymateb, amlygodd y Prif Weithredwr bod cyfeiriad i gyfradd tâl y Pennaeth Addysg yn yr Adolygiad Polisi Tâl 2014/2015. Nodir yno fod cyflog y swydd ar lefel y chwartel isaf (golyga chwartel isaf bod 75% o'r sector sydd wedi'u harfarnu sydd hefo swyddi o faint cyfartal yn cael cyflog uwch). Roedd y cymal yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn Chwefror 2014 yn mynegi, 'Pe byddai'r swydd yn dod yn wag, byddai'n rhaid i'r Cyngor ystyried amgylchiadau'r farchnad ar y pryd ac ystyried unrhyw angen i ailraddio'r cyflog.'

Cynigiwyd adolygu'r polisi tâl i gwrdd ag anghenion y swydd allweddol yma ac ail gyflwyno Polisi Tâl diwygiedig i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2014, gyda'r bwriad o ail hysbysebu ddechrau Medi.

Eiliwyd y cynnig a phleidleisiwyd.

(Cydnabuwyd y bydd angen i'r Cyngor wneud trefniadau dros dro ar gyfer tymor y Nadolig yn sgil y ffaith y bydd y Pennaeth Addysg presennol yn gadael ei swydd ddiwedd Awst).

**PENDERFYNIAD**

**ADOLYGU'R POLISI TÂL I GWRDD AG ANGHENION Y SWYDD AC I ARGYMELL I'R CYNGOR FABWYSIADU POLISI TÂL DIWYGIEDIG.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:00pm